Promoting adult learning/ hyrwyddo addysg i oedolion

## Gwobrau Ysbrydoli! 2012 Inspire! Awards 2012

Eleni, am y tro cyntaf, daw'r gwobrau tiwtoriaid a mentoriaid yn rhan o brif Seremoni Wobrwyo Ysbrydoli! Addysg Oedolion. Fel canlyniad, efallai y dymunwch enwebu dysgwyr, tiwtoriaid, mentoriaid a hyfforddwyr eithriadol o addysg bellach, addysg uwch, y gweithle neu'r gymuned. Gall tiwtoriaid weithio mewn sgiliau hanfodol, cymwysterau galwedigaethol, ieithoedd, ar-lein drwy e-diwtora a/neu mewn swydd wirfoddol fel tiwtor, mentor neu hyfforddydd. Gall dysgwyr fod yn astudio unrhyw bwnc o Archaeoleg i Waith Coed neu o Adeiladu i Gelf.

Islaw mae'r dolenni i ffurflen enwebu ar-lein Gwobrau Ysbrydoli! a gaiff, unwaith y byddant wedi'u llenwi, eu hanfon atom yn electronig. Gallwch hefyd ddewis cwblhau eich enwebiad fel dogfen Word, y medrir hefyd ei hanfon atom yn electronig drwy e-bost. Gall enwebiadau fel dogfennau Word hefyd gael eu hargraffu a'u postio atom. Byddwn yn derbyn unrhyw fformat, ond y ffurflen ar-lein neu'r ddogfen Word drwy e-bost yw'r opsiynau a ffafriwn gan y byddant yn ein helpu i ostwng ein Ã´l-troed carbon a'n galluogi i symleiddio'r broses feirniadu.

Oherwydd nodweddion neilltuol y feddalwedd, os dymunwch wneud mwy nag un enwebiad drwy'r system ar-lein bydd yn rhaid i chi (fel yr enwebydd) ddefnyddio gwahanol gyfeiriad e-bost ar gyfer pob enwebiad. Bydd pob ffurflen enwebu ar-lein a lenwir yn derbyn e-bost "diolch am enwebu" gan NDC a aiff at gyfeiriad e-bost yr enwebydd a nodir yn y ffurflen. Felly, os gofynnwch am ganiatÃ¢d rhywun arall i ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost i wneud enwebiad arall, bydd angen rhoi gwybod iddynt y byddant yn derbyn e-bost cadarnhau gan NDC.

Ffurflen Enwebu Gymraeg

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiad yw **10 Chwefror 2012.**

Ffoniwch Steve Martin, Rhydian Thomas neu Essex Havard ar 029 2037 0900 os gwelwch yn dda os hoffech eglurhad pellach ar y broses enwebu ar-lein.

Edrychwn ymlaen at ymuno gyda chi i ddathlu llwyddiant dysgwyr, tiwtoriaid, mentoriaid a hyfforddwyr ysbrydoledig o bob rhan o Gymru. Pob lwc!

Tîm Ymgyrchoedd a Hyrwyddo
NIACE Dysgu Cymru

This year, for the first time, the tutor and mentor awards will become part of the main Inspire! Adult Learner Award Ceremony. As a result, you may wish to nominate outstanding learners, tutors, mentors and trainers from further education, higher education, the workplace or the community. Tutors may work in essential skills, vocational qualifications, languages, online through e-tutoring and / or in a voluntary capacity as a tutor, mentor or trainer. Learners can be studying any subject from Archaeology to Welsh or from Construction to Art.

Please find below the link to the online Inspire! Awards nomination form which, once completed, will be sent electronically to us. You can also choose to complete your nomination as a Word document, which can also be sent to us electronically via email. Nominations as Word documents can also be printed and posted to us. Any format will be accepted by us, but the online form or the Word Document by email are the preferred options as they will help us reduce our carbon footprint and enable us to streamline the judging process.

Due to a peculiarity of the software, if you wish to make more than one nomination through the online system you (as the nominator) have to use a different e-mail address per nomination. Each completed online nomination form will generate a "thank you for nominating" e-mail from NDC which will go to the nominator's e-mail address as stated on the form. So, if you ask for somebody's permission to use their e-mail address to make another nomination, they will need to be briefed to expect the confirmation e-mail from NDC.

**Nominate now**

The deadline for nominations is **10th February 2012**.

Please ring Steve Martin, Rhydian Thomas or Essex Havard on 029 2037 0900 if you need further clarification regarding the online nomination process.

We look forward to joining with you in celebrating the success of inspirational learners, tutors, mentors and trainers from across Wales. Good luck!

The Campaigns & Promotions Team
NIACE Dysgu Cymru

**NIACE (The National Institute of Adult Continuing Education, England and Wales) yw cwmni cyfyngedig trwy warant, rhif cofrestu 2603322 rhif cofrestru elusen 1002775. Cyfeiriad cofrestredig: 21, De Montfort Street, Caerlyr, LE1 7GE, UK**

**Rhan-ariannir NIACE Dysgu Cymru gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru**

**NIACE Dysgu Cymru. 3ydd Llawr 33-35 Heol Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB, UK Rhif ffon: +44 (0)292 037 0900 - Ffacs: +44 (0)292 037 0909 - Ebost: enquiries@niacedc.org.uk**

**NIACE (The National Institute of Adult Continuing Education, England and Wales) is a company limited by guarantee, registered no. 2603322 and registered charity no.1002775. Registered address: 21 De Montfort Street, Leicester, LE1 7GE, UK**

**NIACE Dysgu Cymru is part-funded by the European Social Fund and the Welsh Government**

**NIACE Dysgu Cymru. 3rd Floor, 33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB, UK Tel. +44 (0)292 037 0900 - Fax: +44 (0)292 037 0909, - Email: enquiries@niacedc.org.uk**